**Bwrdd Partneriaeth Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin**
**13.10.2022**

SAFLE TREFTADAETH Y BYD
Llechi Cymru
Wales Slate
WORLD HERITAGE SITE

The Slate Landscape of Northwest Wales Inscribed on the World Heritage List in 2021

**Ymddiheuriadau:**
Cyng. Nia Jeffreys, Naomi Jones (Awdurod Parc Cenedlaethol Eryri), Jonathan Cawley (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri),

**Presennol**:

Yr Arglwydd Dafydd Wigley, Dafydd Gwyn (Govannon), Roland Evans (Cyngor Gwynedd), Kate Roberts (CADW), Hannah Joyce (Cyngor Gwynedd), Gwyneth Hughes (Cyngor Gwynedd - Cofnodi), Ashley Batten (Cadw), Michael Bewick (JW Greaves), Kath Davies (Amgueddfa Genedlaethol), Ceri Williams (Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Sioned Williams (Cyngor Gwynedd), Sian Rees (ICOMOS-UK), Gareth Jones (Cyngor Gwynedd), Christopher Catling (RCAHMW), Andrew Edwards (Prifysgol Bangor),Elen Roberts (Amgueddfa Genedlaethol)

| | |
|---|---|
| Derbyniwyd yr ymddiheuriadau uchod. | |
| Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi<br>Dymunwyd pob lwc i Gwenan yn ei swydd newydd. Mae swydd Gwenan bellach yn wag ac yn cael ei hysbysebu am yr ail waith.<br><br>Prifysgol Technegol Michigan – Adroddwyd bod myfyrwyr o Brifysgol Michigan wedi dod i Wynedd mis Awst. Diolchwyd i Prifysgol Bangor. | |
| **<u>1.</u> _Diweddariad STyB**<br>**Is Grŵp Cadwraeth**<br>• Trosolwg – Kate (Cadeirydd)<br><br>Canllaw Dylunio nawr yn orffenedig.<br><br>Adroddwyd bod Zip World wedi mynychu cyfarfod diweddar o'r Is Grŵp Cynllunio a Chadwraeth i drafod datblygiadau posibl. Yr awgrym yw bod datblygiadau perthnasol priodol yn cael ei trafod cyn i'r datblygwyr gyflwyno cais cyn-cynllunio.<br><br>• Gwarchodaeth – Ashley<br><br>Derbyniwyd diweddariad gan Ashley am ddynodiadau Dinorwig, Pen yr Orsedd a Dorothea.<br><br>Cyfeiriodd Roland at gydweithio rhyngwladol gan adrodd ei fod wedi cael trafodaeth gychwynnol efo James Douet yn ddiweddar am ddigwyddiad rhyngwladol flwyddyn nesaf yng Ngwynedd ar gyfer safleoedd Cloddio byd eang.<br><br>**Is Grŵp Buddion** | |

- Trosolwg – Michael (Cadeirydd)

Adroddwyd bod Dorothea Pumped Hydro wedi mynychu cyfarfod diwethaf yr Is Grŵp Buddion. Bydd Zip World yn cael gwahoddiad i gyfarfod nesaf yr Is Grŵp Buddion.

Trafodwyd Dorothea a chyfeiriodd Sioned at y Fframwaith Adfywio. Nodwyd bod angen sgwrs ehangach yn yr ardal efo partneriaid gan ystyried Dorothea yn y drafodaeth ehangach – datblygiadau a blaenoriaethau, a'r posibilrwydd o bartneriaeth gyda'r gymuned leol.

Gofynnodd y Cadeirydd i Michael Bewick ag Elen Roberts o'r Amgueddfa Lechi os oedd statws safle treftadaeth y byd wedi dod a mwy o ymwelwyr i'r ardal neu wedi creu unrhyw anhawster. "Marginal impact" oedd ateb MB oherwydd Covid a diffyg ymwybyddiaeth am y statws safle treftadaeth y byd.

Cytunodd yr Amgueddfa Lechi gan ychwanegu eu bod wedi gweld mwy o ymwelwyr yn syth ar ôl derbyn y statws safle treftadaeth byd ond hyn wedi arafu erbyn hyn.

Adroddodd Sioned bod angen adnabod ein blaenoriaethau a manteisio ar gwerth y bunt.

- Cynllun Ariannu Strategol – Hannah

Adroddwyd bod drafft wedi'i gylchredeg efo agenda'r cyfarfod yma. Bydd angen cyflwyno unrhyw sylwadau i Hannah erbyn 31ain o Hydref. Copi hefyd i'w gynnwys efo cofnodion y cyfarfod yma.

- Ceisiadau ariannol – Hannah

Adroddodd Sioned y byddai'n syniad i gynnal cyfarfod tu allan i'r cyfarfod yma i drafod posibiliadau/syniadau SPF.

Levelling Up – Hannah wedi cael cais i gyflwyno mwy o wybodaeth ac mae'r ymateb wedi ei ddychwelyd ers 12fed o Hydref, disgwylir penderfyniad ar y cais cyn ddiwedd Tachwedd.

- Dehongli – Hannah

Dim i'w nodi.

**Themâu trawsbynciol**

- Iaith Gymraeg – Gwenllian / Roland

Adroddodd Roland ei fod efo cyfarfod efo Gwenllian ar 14eg o Hydref. Cyfeiriodd Roland at cais llwyddiannus ymchwil y Brifysgol fydd yn canolbwyntio ar twristiaeth ac ieithyddol.

- Economi ymweld – Roland

Bydd y cynllun econimi ymweld Newydd gerbron Cabinet Cyngor Gwynedd a phwyllgorau perthnasol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ym mis Rhagfyr. Bydd lansiad flwyddyn nesaf.

| | |
|---|---|
| **2. Unrhyw fater arall**<br><br>Adroddiad Cyfnodol Unesco – Kate<br><br>Cyfeiriodd Kate at yr amod i baratoi adroddiad cyfnodol. Y gobaith yw ei gwblhau erbyn diwedd Mawrth. Ar ôl ei baratoi, gall DCMS ddod yn ôl gyda cwestiynau. Efallai y byddai'n syniad cael grŵp bach at ei gilydd i baratoi y wybodaeth angenrheidiol. Gall yr ymateb ddod gerbron y Bwrdd yma dechrau'r flwyddyn i gael ei arwyddo i ffwrdd. | |
| **3. Dyddiad y cyfarfod nesaf**<br><br>Cynehlir y cyfarfod nesaf ar 15fed o Ragfyr rhwng 1-3 o'r gloch.<br><br>Pwyntiau i'w trafod:<br><br>• Cyllid<br>• Adroddiad Cyfnodol UNESCO | |